Edward (Jones) Stephen, ‘Tanymarian’, 1822–85

Gweinidog (A), diwygiwr cerddorol, darlithydd a bardd

Ni wyddom ddydiad geni Edward Jones, ond cofnodir ei fedydd yn llyfr eglwys Mihangel Sant, Ffestiniog, sef ar 15 Rhagfyr 1822. Yr oedd ei dad Robert Jones yn canu’r delyn a’i fam Jane yn gantores dda. Enw eu cartref oedd Rhyd-y-sarn yng nghwr uchaf Dyffryn Maentwrog. Symudasant i Benmount yn nes at Ffestiniog ac yna i Ty’maes, Llanffestiniog. Prin oedd yr addysg foreol a dderbyniodd er bod sôn iddo fynychu Ysgol Genedlaethol Penralltgoch. Prentisiwyd ef fel dilledydd gan ei frawd William pan oedd yn ifanc.

Yr oedd ei fam yn aelod gyda’r Methodistiaid Calfinaidd a byddai’n aml yn mynd wrth ei chwt i’r moddion i wrando ar enwogion fel John, David a William Jones o deulu enwog Tanycastell, Dolwyddelan. Oherwydd gwrthdaro o ganlyniad i’r cythraul canu gadawodd y Methodistiaid gan ymuno â’r Annibynwyr, ac yntau oddeutu Tair ar ddeg oed. Dangosodd ddiddordeb cynyddol mewn cerddoriaeth ac yn fuan dechreuodd bregethu dan fendith eglwys Saron, Llan Ffestiniog. Ym 1843 aeth i Athrofa’r Annibynwyr yn y Bala lle’r oedd y Parch. Michael D. Jones yn ei anterth. Yno dechreuodd ei alw ei hun yn Edward Stephen – ar ôl ei daid – yn lle ei enw bedydd Edward Jones gan fod yna fyfyriwr arall o’r un enw. Yn y coleg dechreuodd ymddiddori o ddifrif mewn cerddoriaeth gan ddechrau cyfansoddi.

Yn haf 1847 ordeiniwyd ef yn weinidog eglwys Horeb, Dwygyfylchi, Penmaen-mawr, ac ar ddechrau ei weinidogaeth pryderai rhai nad oedd yn addas i fod yn weinidog gan yr ymddangosai yn falch a larts. Yn Nwygyfylchi y cyfansoddodd yr oratorio *Ystorm Tiberias*, a gyhoeddwyd ym 1855 mewn saith o rifynnau. Dyma’r cyfanwaith cyntaf a gyfansoddwyd gan Gymro. Ym 1856 derbyniodd alwad i Fethlehem, Tal-y-bont a Charmel,

Llanllechid, ger Bethesda, a chafodd lwyddiant mawr fel gweinidog. Cynyddodd nifer aelodaeth yr eglwysi o 147 i 1,249 yn ystod ei gyfnod yno. Blodeuodd fel cerddor gan gyfansoddi, ymhlith pethau eraill, 'Requiem' ym 1858 er cof am John Jones, Tal-y-sarn. Yr oedd ymhlith to o arweinwyr a sylweddolodd bwysigrwydd a gwerth cerddoriaeth i'r eglwysi Ymneilltuol. Ei gyfraniad mawr oedd mynnu codi safon cerddoriaeth yn yr eglwysi. Gwnaeth hyn trwy gylchgronau, erthyglau yn y cyfnodolion, darlithoedd poblogaidd, cymanfaoedd canu, a thrwy bwysleisio'r angen am gorau yn y capeli. Cafodd ddylanwad ar bensaernïaeth y capeli a adeiladwyd ar ôl 1860, gan fod nifer ohonynt wedi eu hadeiladu â seti arbennig i'r côr uwchben y pulpud. Cyn hyn bu canu cynulleidfaol Cymru yn unsain ac yn ddigon ansoniarus ond yn sydyn daeth canu pedwar llais i fri. Daeth yr arfer o ledio emyn bob yn gwpled i ben ac ysgubwyd y rhagfarnau fu tuag at offerynnau cerdd o'r neilltu gan lif brwdfrydedd cerddorol.

Yn 60au'r ganrif cyfieithodd Cynffig Davies werslyfrau John Curwen i'r Gymraeg gan gyflwyno'r Tonic Sol-ffa i'r genedl. Ym 1859 daeth Tanymarian yn olygydd *Cerddor y Cysegr*, o 1861 i 1863 golygodd *Greal y Corau*, ac ym 1868 cyhoeddodd mewn cydweithrediad â'r Parch J.D. Jones, *Llyfr Tonau ac Emynau*. Cyfansoddodd nifer o donau a'r mwyaf poblogaidd yw 'Tanymarian'.

Ymhlith ei gyfansoddiadau yr oedd yr anthemau 'Cyfodwn ac Esgynwn i Seion', 'Llawen floeddiwch i Dduw', 'Wrth afonydd Babilon', a 'Cofia fi Arglwydd', a'r caneuon 'Hen Gadair Freichiau Ardderchog fy Mam' a 'Caingc y Delyn'. Bu farw 10 Mai 1885, a chladdwyd ef ym mynwent capel Bethlehem, Tal-y-bont, Bethesda.